



TAG Uwch

1386/01

CYMRAEG AIL IAITH

CA6

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

P.M. DYDD LLUN, 18 Mehefin 2012

P.M. MONDAY, 18 June 2012

$1\frac{3}{4}$ awr

$1\frac{3}{4}$ hours

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfrynn ateb 8 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A ac Adran B.

Dylech dreulio $\frac{3}{4}$ awr ar Adran A ac 1 awr ar Adran B.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Rhoddir nifer y marcian mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copiau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

ADDITIONAL MATERIALS

8 page answer book.

INSTRUCTIONS FOR CANDIDATES

Use black ink or black ball-point pen.

Answer **all** questions in Section A and Section B.

You should spend $\frac{3}{4}$ hour on Section A and 1 hour on Section B.

INFORMATION FOR CANDIDATES

The number of marks allocated for each question or part-question is given in brackets.

Copies of poetry and dictionaries are **not** permitted.

ADRAN A

Defnyddio'r Iaith

1. (i) Lluniwch frawddegau (**un frawddeg yr un**) i ddangos yn eglur ystyr a defnydd y ffurfiau berfol canlynol. Dechreuwch bob brawddeg gyda'r ffurfiau canlynol: [18]
- (a) Gwela i
 - (b) Byddwn ni'n
 - (c) Doeddwn i ddim wedi gweld
 - (ch) Dylen nhw
 - (d) Cynhaliwyd
 - (dd) Darllenodd hi
- (ii) Lluniwch frawddegau (**un frawddeg yr un**) i ddangos yn eglur ystyr a defnydd y cymalau canlynol. Dechreuwch bob brawddeg gyda'r ffurfiau hyn: [12]
- (a) Os byddwch chi'n gallu
 - (b) Wedi iddo glywed y newyddion
 - (c) Dydw i ddim yn gwybod bod
 - (ch) Ydy e'n cofio mai
2. Cyfieithwch y brawddegau canlynol: [15]
- (i) She said she would go on her own. [3]
 - (ii) All the family has moved to the country. [3]
 - (iii) We sold the two tickets yesterday. [3]
 - (iv) He does not know how to answer the question. [3]
 - (v) Remember to phone tonight. [3]

ADRAN B**Barddoniaeth**

3. Darllenwch yn ofalus y gerdd *Twyll* gan Myrddin ap Dafydd ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn:

Twyll

Darllen y silffoedd:

siwgwr coch o Jamaica
gwenith o La Plata
afalau pîn o Malaysia
datys o Arabia
cnau o'r Himalaya
coco o Ghana
india corn o Guatemala,
- maen nhw'n ein bwydo ni.

Darllen y papurau newydd:

arian at anhhrefn Rwanda
at newyn yn Ethiopia
at dyfrio Botswana
at ysgolion Bolifia
at tlodion daeargrynn yn India
- dan ni'n eu bwydo nhw.

Cil-dwrn ein cydymdeimlad,
hatling ein help llaw
at dractorau,
at helynt yr holl dymhorau,
ac at logau banc y ni a'r Ianc.

Darllen rhwng y silffoedd:

reis o crochanau gwag Cambodia,
te gan noethion Sri Lanka,
coffi o shantis Colombia,
- maen nhw'n ein bwydo ni,
dan ni'n eu bwyta nhw.

Myrddin ap Dafydd

Y Lolfa

Geirfa

<i>twyll</i> – <i>deceit</i>
<i>gwenith</i> – <i>wheat</i>
<i>datys</i> – <i>dates</i>
<i>india corn</i> – <i>maize</i>
<i>anhhrefn</i> – <i>disorder</i>
<i>newyn</i> – <i>famine</i>
<i>dyfrio</i> – <i>to water</i>
<i>tlodion daeargrynn</i> – <i>the poor from the earthquake</i>
<i>dan</i> = <i>rydyn ni</i>
<i>cil-dwrn</i> – <i>small sum of money</i>
<i>cydymdeimlad</i> – <i>sympathy</i>
<i>hatling</i> – <i>small coin</i>
<i>helynt</i> – <i>problem</i>
<i>llogau banc</i> – <i>bank interest</i>
<i>Ianc</i> = <i>Americanwr</i>
<i>crochanau</i> – <i>cauldrons</i>
<i>noethion</i> – <i>naked people</i>

- (a) Dadansoddwch gynnwys y gerdd *Twyll*. Gallwch sôn am y darlun sy'n cael ei ddisgrifio wrth i ni geisio helpu pobl y Trydydd Byd. [20]
- (b) Dadansoddwch arddull y gerdd *Twyll* ac esboniwrch resymau'r bardd am ddefnyddio'r technegau hyn. [20]
- (c) Prif thema'r gerdd hon yw cyfrifoldeb yr unigolyn wrth geisio helpu pobl eraill. Manylwch ar y thema **cyfrifoldeb yr unigolyn** trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wylwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema. [35]